**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU YR AMGYLCHEDD**
**DYDD MAWRTH, 12 TACHWEDD 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Mawrth, 12 Tachwedd 2019

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Patrick Heesom (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Sean Bibby, Chris Dolphin, Andy Dunbobbin, Veronica Gay, George Hardcastle, Cindy Hinds, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Vicky Perfect a Paul Shotton

**DIRPRWYON:** Y Cynghorydd Gladys Healey ar ran y Cynghorydd David Evans

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Derek Butler, Aelod Cabinet Datblygu Economaidd.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Cynghorydd Ian Roberts

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Carolyn Thomas, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad; Y Cynghorydd Chris Bithell, Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd; Prif Swyddog Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi); Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant); Rheolwr Gwarchod y Gymuned a Busnes; Rheolwr Gwasanaeth Rheoleiddio, Rheolwr Gweithredol y Gogledd a Goleuadau Stryd ac Arweinydd Tîm Mwynau.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

## 32. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim

## 33. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 17 Medi a 15 Hydref 2019.

Cynigiodd y Cynghorydd George Hardcastle bod y cofnodion yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir ac eiliwyd gan y Cynghorydd Dennis Hutchinson.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 34. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL A OLRHAIN GWEITHRED

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol presennol ac amlinellwyd yr eitemau a restrwyd ar gyfer y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor i'w gynnal ar 10 Rhagfyr.

Roedd yr Hwylusydd hefyd yn cyfeirio at y camau oedd yn codi o'r cyfarfodydd blaenorol oedd ynghlwm i'r adroddiad ac adroddwyd ar gynnydd wrth eu cwblhau.

Cynigiwyd yr argymhellion yn yr adroddiad gan y Cynghorydd Paul Shotton ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Sean Bibby.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor fel y cyflwynwyd, yn cael ei chymeradwyo;

(b) Bod yr Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor yn derbyn awdurdod i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

## 35. ADOLYGU'R POLISI GORFODAETH AMGYLCHEDDOL Y CYNGOR

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) adroddiad i geisio argymhelliad i'r Cabinet gymeradwyo'r Polisi Gorfodaeth Amgylcheddol diwygiedig. Darparodd wybodaeth gefndirol a dywedodd fod Polisi'r Awdurdod, 'Rheoli'r Amgylchedd Lleol' oedd ynghlwm i'r adroddiad wedi'i adolygu i adlewyrchu'r amrywiol newidiadau i drefniadau Portffolio a deddfwriaeth ers 2013.

Roedd y Rheolwr Gwasanaeth Rheoleiddio yn cyflwyno'r prif ystyriaethau, fel y manylwyd yn yr adroddiad ac yn cyfeirio at nod ac amcanion y Polisi Gorfodaeth Amgylcheddol a'r prif feysydd ffocws. Roedd hefyd yn tynnu sylw at y data a ddarparwyd ar y nifer o Rybuddion Cosb Benodedig a gyflwynwyd ac eglurodd y bu gostyngiad yn y defnydd o Rybuddion Cosb Benodedig a rhoddwyd mwy o bwyslais ar addysgu'r cyhoedd ar effeithiau niweidiol baw cŵn a thaflu sbwriel.

Roedd aelodau yn codi nifer o bryderon am barcio y tu allan i'r ysgol ac mewn ardaloedd preswyl preifat, troliau siopa wedi eu gadael, tipio anghyfreithlon, gwastraff masnachol a safle, baw cŵn, offer cyffuriau wedi eu gwaredu a choed/gwrychoedd wedi gordyfu. Roedd swyddogion yn ymateb i'r sylwadau a'r pryderon a godwyd. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau gyflwyno'r pryderon penodol a godwyd ynglŷn â materion yn eu Ward yn ysgrifenedig i'r Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) ar gyfer ymateb manwl a chopi i'r Cadeirydd. Gofynnodd y Rheolwr Gwasanaeth Rheoleiddio i Aelodau gysylltu â'r Tîm Gorfodaeth i amlygu unrhyw feysydd oedd yn achosi problem yn eu Ward oedd angen mwy o sylw.

Diolchodd y Cynghorydd Sean Bibby i'r Prif Swyddog a'i dîm am y gwelliant i'r gwasanaethau yn ei ward.

Ar gais y Cadeirydd, cytunwyd y byddai'r Prif Swyddog yn anfon copi o Bolisi Gorfodaeth Amgylcheddol yr Awdurdod 'Rheoli'r Amgylchedd Lleol' i holl Gynghorau Tref a Chymuned er gwybodaeth. Roedd y Cadeirydd hefyd yn gofyn i ddatganiad cyllideb gael ei ddarparu i'r Pwyllgor yn manylu cost darparu Gorfodaeth Amgylcheddol yn y Sir. Cytunodd y Prif Swyddog i ddarparu datganiad cyllideb i Aelodau'r Pwyllgor.

Cynigiodd y Cynghorydd Paul Shotton yr argymhellion yn yr adroddiad ac eiliwyd gan y Cynghorydd George Hardcastle.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn argymell i'r Cabinet yr adolygiadau arfaethedig i Bolisi Gorfodaeth Amgylcheddol y Cyngor fel Atodiad 1 i'r adroddiad.

## 36. <u>ADRODDIAD TIR HALOGEDIG</u>

Cyflwynodd yr Aelod o'r Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yr adroddiad i roi diweddariad i'r Pwyllgor ar asesiad o safleoedd tir halogedig ac yn dilyn gwaith adferiad Darparodd wybodaeth gefndir a dywedodd fod Strategaeth Archwilio Tir Halogedig yr Awdurdod wedi'i ddiweddaru yn 2019 i adlewyrchu cyflwyno deddfwriaeth a chanllawiau newydd sy'n effeithio ar bolisïau corfforaethol ehangach a sut y dylid ystyried halogiad tir. Mae'r adroddiad yn cynnwys y gwaith a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2018-19 ac mae'n crynhoi'r nifer a math sylweddol o safleoedd a aseswyd o ganlyniad i Ran 2A.

Dywedodd y Rheolwr Diogelu'r Gymuned a Busnes fod gan yr Awdurdod ddyletswydd statudol i nodi ac asesu unrhyw dir o fewn Sir y Fflint y gall halogiad effeithio arno a sicrhau adferiad tir halogedig yn unol â Rhan 2A o'r Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Eglurodd fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud mewn perthynas â'r Strategaeth Archwilio Tir halogedig ac roedd crynodeb o gamau Rhan 2A yn yr atodiad gyda'r adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan y Cynghorydd Paul Shotton ynglŷn â goblygiadau adnoddau, dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, Economi a'r Amgylchedd) fod gan yr Awdurdod gyllideb refeniw blynyddol i gyllido'r asesiadau a gynhelir o fewn y Gyllideb Rheoli Llygredd. Roedd cyllid cyfalaf hefyd wedi'i osod ar wahân i'r rhaglen gyfalaf i ariannu costau unrhyw waith adferiad angenrheidiol ar unrhyw safle ble roedd angen gwneud gwaith o'r fath. Roedd arian cyfalaf £1miliwn gan Lywodraeth Cymru ar gael ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18 a gwahoddwyd ceisiadau cystadleuol am arian gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Roedd yr Awdurdod wedi cyflwyno pedwar cais a dyfarnwyd £221,268.00. Byddai ceisiadau am arian yn parhau wrth i fwy o arian ddod ar gael gan Lywodraeth Cymru.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau roi'r pryderon penodol a godwyd ynglŷn â materion tir halogedig yn eu Ward yn ysgrifenedig i'r Prif Swyddog (Cynllunio, Economi a'r Amgylchedd) ar gyfer ymateb manwl a chopi i'r Cadeirydd.

Cynigiodd y Cynghorydd Sean Bibby yr argymhellion yn yr adroddiad ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Gladys Healey.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y cynnydd a wnaed yn mynd i'r afael â thir halogedig hanesyddol yn cael ei nodi; a

(b) Bod cynnydd Strategaeth Archwilio Tir Halogedig Cyngor Sir y Fflint yn cael ei gefnogi.

## 37. ADRODDIAD CYNLLUN Y CYNGOR 2019/20 – MONITRO CANOL BLWYDDYN

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd a'r Economi) yr adroddiad a oedd yn cyflwyno crynodeb o'r perfformiad ar y pwynt canol blwyddyn yn 2019/20 ar gyfer blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 'Cyngor Gwyrdd', 'Cyngor Uchelgeisiol' a 'Chyngor Diogel a Glân' sydd yn berthnasol i'r Pwyllgor.

Dywedodd y Prif Swyddog bod adroddiad monitro canol blwyddyn Cynllun y Cyngor ar gyfer 2019/20 yn adroddiad cadarnhaol, gydag 88% o weithgareddau'n gwneud cynnydd da a bod 90% yn debygol o gyflawni'r canlyniadau a gynlluniwyd. Roedd 77% o'r dangosyddion perfformiad wedi cyrraedd neu ragori ar eu targedau. Mae risgiau yn cael eu rheoli, gyda 14% yn unig wedi'u hasesu fel rhai sylweddol.

Mewn ymateb i sylw a wnaed gan y Cynghorydd Paul Shotton yn ymwneud â'r angen i gael mynediad i bwyntiau E-wefru mewn lleoliadau ar draws y sir, dywedodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad bod adroddiad ar ymateb y Cyngor i'r her o newid hinsawdd a chyflawni niwtraliaeth carbon erbyn 2030 yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Rhagfyr. Eglurodd fod gwaith hefyd wedi'i wneud gyda Llywodraeth Cymru a'r Grid Cenedlaethol ynglŷn â ffurfiau eraill o gyflenwad pŵer fel hydrogen. Dywedodd y Prif Swyddog fod yr Awdurdod yn cael mynediad i'r arian grant oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru ac yn genedlaethol i gefnogi'r broses.

Cynigiodd y Cynghorydd Joe Johnson yr argymhelliad yn yr adroddiad ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ray Hughes.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad.

## 38. ADOLYGU'R POLISI GOLEUADAU STRYD

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) adroddiad i geisio argymhelliad i'r Cabinet i gymeradwyo'r Polisi Goleuadau Stryd diwygiedig.

Rhoddodd y Prif Swyddog wybodaeth gefndir a dywedodd bod y Polisi Goleuadau Stryd presennol wedi'i gymeradwyo yn 2015, fodd bynnag, bu datblygiadau sylweddol o ran dewisiadau rhad-ar-ynni a gwelliannau o ran effeithiolrwydd offer trydanol a bellach roedd angen adolygu'r polisi. Gwahoddodd y Prif Swyddog y Rheolwr Gweithredol y Gogledd a Goleuadau Stryd i gyflwyno'r adroddiad.

Rhoddodd y Rheolwr Gweithredol y Gogledd a Goleuadau Stryd adroddiad ar ystyriaethau allweddol, fel y manylwyd yn yr adroddiad, a thynnodd sylw i'r prif newidiadau i'r Polisi yn ymwneud ag archwiliadau min nos, archwiliadau a drefnwyd a phrofion trydanol. Roedd Polisi Goleuadau Stryd diwygiedig (Hydref 2019) ynghlwm i'r adroddiad.

Roedd y Cynghorydd Dennis Hutchinson yn mynegi pryderon am oleuadau stryd ar ddatblygiadau preswyl heb eu mabwysiadu. Ymatebodd swyddogion i'r cwestiynau a godwyd ynglŷn â cheisiadau cynllunio, mabwysiadu i berchnogaeth awdurdod lleol a gorfodaeth. Roedd Rheolwr Gweithredol y Gogledd a Goleuadau Stryd yn tynnu sylw at dudalen 145 o'r adroddiad oedd yn cyfeirio at fabwysiadu'r rhestr eiddo goleuadau stryd. Roedd yr Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad yn cydnabod y pwyntiau a godwyd a dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn ystyried datblygiadau preswyl heb eu mabwysiadu.

Roedd aelodau yn diolch i'r Prif Swyddog a'i dîm am y gwelliannau i oleuadau stryd.

Mewn ymateb i'r sylwadau gan y Cynghorydd Ray Hughes yn ymwneud â goleuadau mewn ardaloedd chwarae yn ystod misoedd y gaeaf, dywedodd y Rheolwr Gweithredol y Gogledd a Goleuadau Stryd y byddai'r Cyngor Tref/Cymuned angen cyflwyno cais i'r Awdurdod ei ystyried i ddechrau.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig gan y Cynghorydd George Hardcastle ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Dennis Hutchinson.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn argymell i'r Cabinet gymeradwyo'r Polisi Goleuadau Stryd diwygiedig, fel yn Atodiad 1 i'r adroddiad a nodi'r materion a godwyd gan Aelodau; a

(b) Bod yr adroddiad ar y ddeddfwriaeth yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

**<u>DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD</u>**

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol yn rhinwedd gwybodaeth eithriedig dan baragraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

**39. DIWEDDARIAD AR Y GWASANAETH MWYNAU A CHYNLLUNIO GWASTRAFF A RENNIR**

Cyflwynodd yr Aelod o'r Cabinet dros Gynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yr adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y Gwasanaeth Mwynau a Chynllunio Gwastraff a Rennir. Dywedodd fod y swyddogaeth mwynau a chynllunio gwastraff yn gweithio fel gwasanaeth ar y cyd ar draws Gogledd Cymru. Roedd yr adroddiad yn crynhoi diben a swyddogaeth y gwasanaeth ac yn egluro'r cynigion llywodraethu a chyllido ar gyfer parhad y gwasanaeth.

Rhoddodd y Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd a'r Economi) wybodaeth gefndir a chyd-destun a gwahoddodd yr Arweinydd Tîm Mwynau i gyflwyno'r prif ystyriaethau fel y manylwyd yn yr adroddiad.

Cynigiodd y Cynghorydd Sean Bibby yr argymhelliad yn yr adroddiad ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Gladys Healey.

**PENDERFYNWYD:**

Cefnogi diben, trefniadau cyllid a llywodraethu ar gyfer
parhau i gefnogi Gwasanaeth Mwynau a Chynllunio Gwastraff a Rennir.

**40. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD**

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 12.41 pm)

...................................................

**Cadeirydd**